ymgynghoriaeth wavehill consulting

Rhyfyn 1

Cylchlythyr y Gwanwyn—*Gwerthuso*

Mae Wavehill yn arbenigo mewn **ymchwil cymdeithasol ar sail tystiolaeth** a **gwerthuso**, ac rydym yn gweithio ar draws y DU ac yn Ewrop.

Mae gennym **15 mlynedd o brofiad** o weithio gyda llywodraeth genedlaethol, awdurdodau lleol a phartneriaethau strategol a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae gan Wavehill swyddfeydd yn Llundain a gorllewin Cymru, ac mae gennym brofiad o weithio gyda rhaglenni a phrosiectau o fewn ardaloedd gwledig a threfol.

Mae gennym **dîm o 22** o ymchwilwyr, ymgynghorwyr, a staff cymorth gan gynnwys tîm cyfweld mewnol hynod brofiadol a all gyflwyno arolygon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

ARBENIGWYR MEWN GWERTHUSO

Mae gan **Wavehill 15 mlynedd o brofiad** o werthuso rhaglenni a phrosiectau ar gyfer ystod o gleientiaid y sector cyhoeddus a gwirfoddol ar draws y DU.

Yn ystod y cyfnod hwnnw rydym yn llythrennol wedi ymgymryd â channoedd o werthusiadau ac rydym wedi datblygu profiad dihafal o gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel.

Mae **arian Ewropeaidd** wedi chwarae rôl allweddol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i brosiectau a ariennir gan y Rhaglen Gydgyfeirio ddechrau. Mae Wavehill wedi gwerthuso ystod eang o raglenni a ariannwyd gan ESF ac ERDF ar draws y DU ac mae gennym wybodaeth drylwyr o'r dulliau monitro a gwerthuso priodol ynghyd â gwerthfawrogiad o'r materion a'r heriau y mae sefydliadau'n eu hwynebu wrth gyflwyno gweithgareddau a ariennir gan Ewrop.

Rydym yn fedrus iawn wrth gasglu safbwyntiau a barnau grwpiau cymunedol anodd eu cyrraedd a grwpiau nad ydynt yn cael cyfle i fynegi eu safbwyntiau'n aml, megis grwpiau sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol. Rydym yn brofiadol hefyd wrth gasglu safbwyntiau busnesau o bob maint. Credwn fod data meintiol yn mesur a data ansoddol yn esbonio, ac felly cyflwynir ein holl waith gan ddefnyddio cydbwysedd o wybodaeth feintiol ac ansoddol.

"Byddem yn barod iawn i argymell Wavehill wrth unrhyw sefydliad a fyddai'n dymuno ymgymryd â Gwerthusiad."

Cyngor Sir Gâr

Ein Prosiectau Diweddar

- **Gwerthuso cynllun olrhain pobl ifanc, 'Llwybro-Routes' : Llywodraeth Cynulliad Cymru**
- **Gwerthuso rhaglen adfywio cymunedol a ariannwyd gan ERDF 'Cronfa Allweddol Wledig' : Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
- **Gwerthusiadau Tymor Canol a Therfynol o gynllun grantiau bach cymunedol a ariannwyd gan Amcan 1 a 3, 'Y Gronfa Risg Gymdeithasol' – CGGC**
- **Gwerthuso cynllun cymorth busnes a ariannwyd gan ERDF 'Northern Lights' – Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn**

Y RHAGLEN PAWB A'I LE

Ar hyn o bryd rydym yn ymgymryd â gwerthusiad parhaus o'r rhaglen Pawb a'i Le, y rhaglen fwyaf a sefydlwyd gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru gyda chyllideb o £66 miliwn. Sefydlwyd y rhaglen i alluogi i bobl gydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol. Cynhelir y gwerthusiad parhaus dros bedair blynedd a bydd yn asesu'r effaith y mae'r rhaglen yn ei chael ar y cymuned.

www.wavehill.com/whc/evaluation-case-study-1.php

Y DIWEDDARAF AR WAVEHILL

Yr ydym newydd lansio ein **gwefan ddwyieithog newydd** gyda newyddion a gwybodaeth gyfredol ar wasanaethau a meysydd arbenigol Wavehill.

Mae'n bleser gennym hefyd groesawu **Endaf Griffiths, uwch ymgynghorydd newydd**, i ymuno â ni gyda 11 mlynedd o brofiad.

Mae ein **tîm arolwg ac ymchwil** wedi cynyddu i 12 aelod ac mae'n parhau i godi safon ein hymchwil ar sail tystiolaeth.

www.wavehill.com

Am wybodaeth bellach, cysylltwch gyda Endaf Griffiths ar 01545 571711 e-bost: endaf.griffiths@wavehill.com